

CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod mis Hydref 2019 Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd ar y 09/10/2019 yn Neuadd Porthyrhyd - 7.30pm.

Minutes of the October 2019 Meeting of Llanddarog Community Council held on the 09/10/2019 at Porthyrhyd Hall – 7.30pm

150/2019-20 Presennol / Present:

Cynghorwyr / Councillors: R Newell (Cadeirydd / Chairman), R Jones, R Owen, M Rees, E Davies, T Evans, J Williams O.B.E, S Herridge & H Jones (8.09pm).

Cynghorydd Sir / *County Councillor* Ann Davies,
Clerc / *Clerk &*
Cyfieithydd / *Translator.*

Un aelod o Bwyllgor Sioe Llanddarog ag un aelod o'r cyhoedd. /
One Member of Llanddarog Show Committee and one member of the public.

151/2019-20 Ymddiheuriadau. / Apologies.

Cynghorydd / *Councillor* : J Youens.

152/2019-20 Datganiadau o fuddiannau personol. / Declarations of personal interest.

Dim / *None.*

153/2019-20 Cyfle i'r cyhoedd i annerch y Cyngor ar eitemau'r agenda (Fe wnaeth yr eitem agenda yma dweud byddai'r Cyngor yn derbyn cynrychiolydd wrth Bwyllgor Sioe Llanddarog mewn hyn o beth.) / Opportunity for the public to address the Council on agenda items (This agenda item stated that the Council would be receiving a representative from Llanddarog Show Committee in this regard.)

(a) Pwyllgor Sioe Llanddarog.

Diolchodd cynrychiolydd y Pwyllgor i'r Cyngor am ei nawdd o £200. Rhoddodd drosolwg o'r heriau y mae'r Pwyllgor yn eu hwynebu wrth drefnu'r sioe bob blwyddyn. Amcangyfrifwyd ei bod wedi costio tua £30,000 i redeg y sioe llynedd. Dywedwyd bod y sioe yn darparu rhoddion i achosion da a bod y sioe yn bwysig i broffil yr ardal.

(b) Aelod o'r cyhoedd.

Cynghorodd yr aelod o'r cyhoedd y Cyngor mewn perthynas â chyfrifoldebau cynnal a chadw cyfleusterau parc chwarae. Hefyd, gofynnwyd i'r Cyngor i fuddsoddi mewn hysbysfwrdd newydd ar gyfer Porthyrhyd ac ystyried gosod panel dehongli ym Mhorthyrhyd. Hefyd, gofynnwyd i'r Cyngor i gadarnhau ei bod yn fodlon â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer dŵr budr a / neu ddŵr wyneb mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig am 16 cartref newydd yn Llanddarog gyferbyn â neuadd y pentref.

(c) Materion o weithdrefn.

Ar ôl cael eu diolch am eu presenoldeb, gadawodd cynrychiolydd Pwyllgor Sioe Llanddarog, ynghyd â'r aelod o'r cyhoedd, y cyfarfod am 8pm - i beidio â dychwelyd. Dywedwyd wrth aelod y Pwyllgor nad oes angen i Bwyllgor Sioe Llanddarog fynychu cyfarfod o'r Cyngor eto ar gyfer y tymor hwn pe bai'r Sioe yn derbyn nawdd pellach wrth y Cyngor. Cadarnhaodd y Cadeirydd i'r aelod o'r cyhoedd y byddai'n derbyn ateb ysgrifenedig wrth y Cyngor mewn perthynas â'i hymholiad ar y datblygiad tai arfaethedig yn Llanddarog. /

(a) *Llanddarog Show Committee.*

The Committee representative thanked the Council for its sponsorship of £200. He provided an overview of the challenges that the Committee face when organising the show every year. It was estimated that it cost around £30,000 to run the show last year. It was stated that the show provides donations to good causes and that it is important for the profile of the area.

(b) *Member of the public.*

The member of the public advised the Council in relation to the maintenance responsibilities of play park facilities. Also, the Council was asked to invest in a new notice board in Porthyrhyd and to consider placing an interpretation panel in Porthyrhyd. Also, the Council was asked to confirm that it was content with the proposed arrangements for foul and / or surface water in relation to the proposed development of 16 new homes opposite Llanddarog village hall.

(c) *Matters of procedure.*

Upon being thanked for their attendance, the representative of Llanddarog Show Committee, along with the member of the public, left the meeting at 8pm - not to return. The Committee member was advised that Llanddarog Show Committee does not need to attend another Council meeting for this term should the Show receive further sponsorship from the Council. The Chairman confirmed to the member of the public that she would receive a written reply from the Council in relation to her query on the proposed housing development in Llanddarog.

154/2019-20 Ymateb y Cyngor yn sgil cofnod 153(b) /2019-20. /

Council reply to the query raised in minute 153(b) /2019-20.

Nid oedd y mater hwn wedi ei rhestru ar yr agenda yn benodol ond roedd y Cyngor yn dymuno cytuno ar ymateb i'r aelod o'r cyhoedd. Ni ystyriwyd byddai cytuno ar ymateb yn achosi oblygiad polisi / ariannol i'r Cyngor. Penderfynwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at yr aelod o'r cyhoedd yn nodi bod y Cyngor yn deall y byddai angen i'r datblygwr fodloni gofynion ymgynghorai statudol (yn nodedig Dwr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru) er mwyn cael y caniatâd angenrheidiol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ar ben hynny, fe fydd yr unigolyn yn cael ei chyfeirio at gofnodion Cyfarfod Anarferol y Cyngor ar 17 Mehefin 2019. /

This matter was not specifically listed on the agenda but the Council wished to agree a response to the member of the public. It was considered that agreeing a reply would not result in a policy / financial implication for the Council. Resolved that the Clerk write to the member of the public stating that the Council understands that in order to attain the required permission from the Local Planning Authority the developer would need

to satisfy the requirements of statutory consultees (notably Dwr Cymru Welsh Water and Natural Resources Wales). Furthermore, the resident will be referred to the minutes of the Extraordinary Meeting of the Council on the 17 June 2019.

155/2019-20 Materion Plismona a diogelwch ffyrdd. / Policing and Road Safety Matters.

Dim / None.

156/2019-20 Mynediad i'r cyfarfod - Cynghorydd H Jones am 8.09 pm. / Entry into meeting – Councillor H Jones at 8.09pm.

157/2019-20 Materion Cyngor Sir - Cynghorydd Sir A Davies. / County Council matters - County Councillor A Davies.

Dyweddodd y Cynghorydd Sir Davies fod adroddiad Tasglu Gwledig wedi'i lansio gan y Cyngor Sir. Rhoddodd drosolwg o'r trafodaethau yng nghyfarfod mis Hydref 2019 o'r Cyngor Sir a rhoddodd wybodaeth am ariannu gwasanaethau addysg yn y Sir. Penderfynwyd diolch i'r Cynghorydd Sir Davies am ei hadroddiad. /

County Councillor Davies stated that a Rural Taskforce report had been launched by the County Council. She provided an overview of discussions at the October 2019 meeting of the County Council and provided information on funding of education services in the County. It was resolved to thank Councillor Davies for her report.

158/2019-20 Gadael y cyfarfod - 8.25 pm. / Departure from meeting – 8.25pm.

Ar ôl cael eu diolch am eu presenoldeb, gadawodd y Cynghorydd Sir A Davies y cyfarfod am 8.25pm, i beidio â dychwelyd. /

Upon being thanked for her attendance, County Councillor A Davies left the meeting at 8.25pm, not to return.

159/2019-20 Adroddiad y Cadeirydd. / Chairman's Report.

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r Cyfarfod. Adroddodd ei fod wedi mynychu'r cinio codi arian ar gyfer Sioe Llanddarog a rhoddodd ddiweddariad hefyd ar y garreg goffa rhyfel arfaethedig ym Mhorthyrhyd. Penderfynwyd diolch i'r Cadeirydd am ei adroddiad. /

The Chairman welcomed everyone to the meeting. He reported that he had attended the fundraising dinner for Llanddarog Show and he also provided an update on the proposed war memorial stone in Porthyrhyd. Resolved to thank the Chairman for his report.

160/2019-20 Cadarnhau ac arwyddo Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 11/9/2019.
Confirmation and signing of the Minutes of the Council meeting - 11/9/2019.

Fel sy'n arferol, roedd y Clerc wedi darparu cofnodion drafft i'r Aelodau cyn y cyfarfod gyda'r agenda / galwad i fynychu. Ar ôl cynnig gan y Cyngorydd (Cyng.) R Jones ac eilio gan Cyng. R Owen; penderfynwyd cadarnhau a llofnodi'r cofnodion (dan law'r cadeirydd llywyddol), yn amodol ar cywiro brawddeg olaf cofnod 138/2019-20 i ddarllen fel y ganlyn: 'Penderfynwyd peidio derbyn argymhellion yr adroddiad a gadael pethau fel y maent ar hyn o bryd gan na ffyddai'r newid yn gam doeth yn economaidd'. Gwnaeth y Clerc y cywiriad i'r cofnod Saesneg drwy law a chyfieithodd ac ysgrifennodd y Cyngorydd H Jones y cywiriad yn y cofnod Cymraeg oherwydd ei alluoedd iaith Gymraeg. Cafodd y cywiriad hyn ei dystio drwy law (initialled) a'i ddyddio gan y Cadeirydd llywyddol. Fe fydd y copi electronig o'r cofnodion yn cael ei gyhoeddi ar y wefan gyda'r cywiriad hwn wedi'i gynnwys. /

As is customary, the Clerk had provided Members with draft minutes in advance of the meeting with the agenda / summons. Following a proposal by Councillor (Cllr.) R Jones and seconding by Cllr R Owen, it was resolved to confirm and sign the minutes (under the hand of the presiding chairman), subject to a correction being made to the final sentence of minute 138/2019-20 to read as follows: 'Resolved not to accept the report's recommendations and leave things as they are at present due to such a change not being commercially prudent'. The Clerk made the correction to the English minute by hand and Cllr H Jones translated and wrote this correction into the Welsh minute due to his Welsh language abilities. The correction was initialled and dated by the presiding Chairman. The electronic copy of the minutes will be published on the website with this correction included.

161/2019-20 Materion yn codi o'r cofnodion uchod. /
Matters arising from the above minutes.

(a) **Cyfeirir at gofnod 131(b)(1)(d) / 2019-20 (Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 Adran 6 ac ystyried cynnal a chadw perthi ac ymylon priffyrdd.)** Codwyd ymholiad ynghylch pryd y bydd y Cyngor yn ystyried y mater hwn. Cadarnhaodd y Clerc y bydd y mater ar agenda cyfarfod mis Tachwedd 2019 y Cyngor. Penderfynwyd nodi. /

Minute 131 (b)(1)(d) / 2019-20 refers (Environment Wales Act 2016 Section 6 and consideration of maintenance provision of highway hedgerows and verges.) A query was raised as to when the Council will consider this matter. The Clerk confirmed it will be on the agenda of the November 2019 meeting of the Council. Resolved to note.

162/2019-20 Gohebiaeth. / Correspondence.

Nodwyd yr eitemau isod. / *The below items were noted.*

Wrth / From.	Testun / Subject.
Cyngor Sir Caerfyrddin / Carmarthenshire County Council.	(a) Newidiadau sy'n effeithio ar y gwasanaeth ailgylchu / biniau (b) Roedd preswlydd wedi dangos diddordeb cychwynnol mewn cadw blwch ffôn Is-Y-Llan, Llanddarog - ond ers hynny mae wedi cadarnhau nad yw am wneud hynny (c) Cau ffordd ar argyfwng - C2060 Maesybont, Llanelli SA14 7HF. /

	(a) <i>Changes affecting bins / recycling service</i> (b) <i>A resident had shown an initial interest in preserving the phonebox at Is-Y-Llan, Llanddarog - but has since confirmed an intention to not do so</i> (c) <i>Emergency Road Closure - C2060 Maesybont, Llanelli SA14 7HF.</i>
Cadw Prydai'n Daclus. / Keep Britain Tidy.	Amryw (gan gynnwys ymgyrchoedd / gwybodaeth.) / <i>Various (including campaigns and information.)</i>
Un Llais Cymru. / One Voice Wales.	(a) <i>Bwletin newyddion Medi 2019</i> (b) <i>Hyfforddiant</i> (c) <i>Cyfarfod Pwyllgor Ardal 2/10/19</i> (d) <i>Swyddi gwag yn y sector</i> (e) <i>Neges wrth y Prif Weithredwr</i> (f) <i>Ymchwil ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol.</i> / (a) <i>News bulletin – September 2019</i> (b) <i>Training</i> (c) <i>Area Committee Meeting 2/10/19</i> (d) <i>Vacancies in the sector</i> (e) <i>Message from the Chief Executive</i> (f) <i>Community Asset Transfer Research.</i>
Chwarae Cymru. / Play Wales.	(a) <i>Cyhoeddiad - Chwarae dros Gymru</i> (b) <i>Ymchwil newydd - digonolrwydd chwarae yng Nghymru.</i> / (a) <i>Publication - Play for Wales</i> (b) <i>New research - play sufficiency in Wales.</i>
Cwar Torcoed Quarry.	<i>Hysbyseb oriau gweithio Medi 2019. / Notice hours of working September 2019.</i>
Cyfoeth Naturiol Cymru. / Natural Resources Wales.	<i>Gweithdai Ymgysylltu – Datganiadau Ardal. / Engagement Workshops – Area Statements.</i>
Cyngor Celfyddydau Cymru. / The Arts Council of Wales.	<i>Noswaith allan - Gyda help Noson Allan, mae dros 300 sefydliad cymunedol ar draws Cymru yn llwyfannu dros 500 perfformiad pob blwyddyn. Beth am fod yn un ohonyn nhw? / Night out - Each year over 300 community organisations use Night Out to put on 500+ performances in local community halls across Wales. Why not join them?</i>
Ffrindiau Eglwys San Pedr Caerfyddin. / Friends of St Peters Church Carmarthen.	<i>Gwybodaeth cyffredinol. / General information.</i>
Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed Powys. / Office of the Police and Crime Commissioner.	<i>Teledu cylch cyfyng yn Nyfed-Powys: Tu ôl i'r Llenni. / CCTV in Dyfed-Powys: Behind the Scenes.</i>
Llywodraeth Cymru. / Welsh Government.	<i>Cynhadledd Ystadau Cymru - Hydref 3 2019. / Ystadau Cymru Conference 3 October 2019.</i>
Fields in Trust Cymru.	<i>Diogelu Mannau Hamdden. / Protecting Community Spaces.</i>
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. / Mid and West Wales Fire and Rescue Service.	<i>Cynllun Corfforaethol Drafft ar gyfer 2020-2025 a Sioeau Teithiol. / Draft Corporate Plan 2020 – 2025 and Roadshows.</i>
Cymorth Cynllunio Cymru. / Planning Aid Wales.	<i>Digwyddiadau/ hyfforddiant. / Events / training.</i>
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. University Health Board.	<i>Gwybodaeth ymwybyddiaeth – 'Curwch Ffliw'. / Awareness raising material – 'Beat Flu'.</i>

163/2019-20 Cynllunio. / Planning.

(a) Cais Cynllunio. / Planning application.

(i) W/39532

Cynllunio Llawn - Estyniad arfaethedig i garej a champfa i gymryd lle 'dutch barn' presennol, Lan Fawr, Llanarthne – SA32 8HS.

Oherwydd gwall clerigol, roedd y cyfeirnod W/39532 wedi'i adael allan o agenda'r cyfarfod hwn. Fodd bynnag, roedd manylion eraill y cais (gan gynnwys y cyfeiriad a disgrifiad y datblygiad arfaethedig) wedi'u cynnwys ar yr agenda. Roedd yr Aelodau yn hapus i ystyried y cais.

Penderfynwyd nodi'r cais yma. /

Full Planning – Proposed Garage and Gym extension to replace existing dutch barn - Lan Fawr, Llanarthney – SA32 8HS.

Due to a clerical error, the reference W/39532 had been omitted from the agenda of this meeting. However, the other details of the application (including the address and the description of proposed development) had been included on the agenda. Members were happy to consider the application.

Resolved to note this application.

164/2019-20 Taliadau. / Payments.

Cadarnhawyd yr isod. / The below were ratified.

Rhif Siec. / Cheque Number.	Dyddiad. /Date.	Cyflenwr a manylion./ Suppliers and details.	Swm yn cynnwys TAW. / Sum £ Gross of VAT.
1489	15/9/19	WCVA – Asiant Cyflogres Medi 2019 – <i>Payroll agent September 2019.</i>	20.10
1490	15/9/19	Cyflog a lwfans Clerc ar ol treth - cyfnod 6 <i>Clerk salary and allowances after tax period 6.</i>	376.06
1491	15/9/19	HMRC – Treth PAYE – Tax – cyfnodau / periods 4,5,6.	282
1492	09/10/19	Spencer Environmental – Torri Gwair / <i>grass cut.</i>	493.20
1493	09/10/19	Menter Gwasanaethau – cyfieithu / <i>translation.</i>	79.20

165/2019-20 Nodi Derbyniadau./ Noting of Receipts.

(a) Cyllid a Thollau EM ad-daliad TAW - Cyfnod 01/04/18-31/03/19.
£1,411.04 (24/9/19). /
HMRC VAT refund for period 01/04/18-31/03/19.

Penderfynwyd nodi bod y Clerc wedi ysgrifennu at Cyllid a Thollau EM gan y deallir dylai'r swm wedi bod yn £1,153.84 nid £1,411.04. /

Resolved to note that the Clerk has written to HMRC as it is understood that the sum should have been £1,153.84 not £1,411.04.

166/2019-20 Ystyried darpariaeth cyfleusterau chwarae / man agored ym mhentref Llanddarog. /

Consideration of the provision of play / open space facilities in the village of Llanddarog.

Trafododd yr Aelodau pwy fyddai'n gyfrifol am unrhyw gyfleuster newydd ynghyd â lle y gellid lleoli unrhyw gyfleuster newydd. Nid oedd consensws cadarn ar y materion hyn. Roedd y cytundeb Adran 106 sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio amlinellol W/26987 ar gael i'r Aelodau ei weld. Penderfynwyd sefydlu gweithgor yn cynnwys y Cyng M Rees, J Youens, H Jones a T Evans i edrych ar y mater yma yn fanwl ac wedyn adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, cyn i'r gweithgor gwrdd, yn gyntaf rhaid i'r Cyngor gytuno i'w gylch gorchwyl. Bydd y Clerc yn paratoi cylch gorchwyl drafft ar gyfer ystyriaeth cyfarfod mis Tachwedd 2019 y Cyngor mewn hyn o beth. /

Members discussed who would be responsible for any new facility together with where any new facility could be located. There was no firm consensus on these issues. The Section 106 agreement relating to outline planning permission W/26987 was available for Members to view. It was resolved that a working group consisting of Cllrs M Rees, J Youens, H Jones and T Evans be established to look at this matter in detail before reporting back to the full Council. However, before the working group meets, the Council must firstly agree to its terms of reference. The Clerk will prepare a draft terms of reference for the consideration of the Council at its November 2019 meeting in this regard.

167/2019-20 Cymeradwyo'r gofrestr asesiad risg corfforaethol. /
Ratifying of the corporate risk assessment register.

Roedd pob Aelod wedi cael copi o'r gofrestr cyn y cyfarfod. O ran y cyfeiriad ar y gofrestr at y mandad banc, diweddarodd y Clerc yr Aelodau ar faterion diweddar. Cytunodd yr Arolygydd Ariannol Mewnol a'r Clerc y dylid cadarnhau'r Clerc fel rhywun nad oedd yn llofnodwr - fodd bynnag, mae hyn wedi arwain ar gam i'r banc uwchraddio'r Clerc i fynediad llawn ar gyfer bancio rhyngrwyd. Cadarnhaodd y Clerc fod y materion hyn yn cael sylw ac mae wedi gofyn i'r banc i atal bancio rhyngrwyd nes iddo gael ei israddio eto i lefel 'gweld yn unig'. Mae ymdrechion hefyd yn mynd yn ei flaen i ychwanegu'r Cyng M Rees fel llofnodwr. Penderfynwyd cadarnhau'r gofrestr, yn amodol ar wneud rhai mân newidiadau. Penderfynwyd ymhellach i gadarnhau'r camau a gymerwyd o ran mandad y banc a bancio rhyngrwyd yn ddiweddar. Penderfynwyd ymhellach i rhestru ystyriaeth o faterion yn ymwneud a mandad y banc ar agenda cyfarfod o'r Cyngor sydd ar ddod. /

Each Member had been provided with a copy of the register in advance of the meeting. With regards to the reference on the register to the bank mandate, the Clerk updated Members on recent issues. The Internal Financial Examiner and Clerk both agreed that the Clerk should be confirmed as a non-signatory, however this has mistakenly

led to the bank upgrading the Clerk to full access for internet banking. The Clerk confirmed that these issues are being addressed and he has asked the bank for internet banking to be suspended until he is downgraded again to 'view only'. Efforts are also ongoing to add Cllr M Rees as a signatory. Resolved to ratify the register, subject to some minor amendments being made. Further resolved to ratify the course of action undertaken with regards the bank mandate and internet banking recently. Further resolved to list consideration of matters relating to the bank mandate on the agenda of an upcoming Council meeting.

168/2019-20 Adroddiad yr Archwiliydd Allanol am 2018/2019. / External Auditor's report for 2018/2019.

Roedd yr Aelodau eisoes yn ymwybodol bod y Cyngor wedi derbyn barn archwiliad diamod ar ôl cael ei hysbysu ar lafar am hyn yn cyfarfod mis Medi 2019. Rhestrwyd y mater hwn ar yr agenda ar gyfer cyflawnrwydd yn unig felly. Penderfynwyd nodi bod y Cyngor wedi derbyn barn archwiliad diamod ar gyfer 2018-19. /

Members were already aware that the Council had received an unqualified audit opinion having been informed verbally of this at the September 2019 meeting. This matter was listed on the agenda for completeness only therefore. Resolved to note that the Council has received an unqualified audit opinion for 2018-19.

169/2019-20 Adroddiad yr Arolygydd Ariannol Mewnol am y cyfnod 1/4/19 i 31/8/19. / Report of the Internal Financial Examiner for the period 1/4/19 to 31/8/19.

Rhodddwyd adroddiad ar lafar gan Cyng R Jones (Arolygydd Ariannol Mewnol y Cyngor). Hefyd, fe wnaeth bob Aelod derbyn copi o'i adroddiad ysgrifenedig cyn y Cyfarfod. Dylid nodi fe wnaeth yr adroddiad cadarnhau cywirdeb y cysoniad at y banc a'r adroddiad ar y gyllideb a rhodddwyd i'r Cyngor yn cyfarfod mis Medi 2019 (gweler cofnod 139/2019-20). Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a diolch i Cyng Jones a'r Clerc am ei gwaith. /

A verbal report was provided by Cllr R Jones (Internal Financial Examiner for the Council). Also, each Member was provided with a written copy of his report before the Meeting. It should be noted that the report confirmed the accuracy of the bank reconciliation and budget report provided to the Council at its September 2019 meeting (minute 139/2019-20 refers). It was resolved to accept the report and thank Cllr Jones and the Clerk for their work.

170/2019-20 'Gŵyl yr Angylion', Eglwys Sant Twrog, Llanddarog, Rhagfyr 12-15, 2019. / 'Angel Festival', St. Twrog's Church, Llanddarog, December 12-15, 2019.

Gwahodddwyd i'r Cyngor i ddarparu arddangosfa. Penderfynwyd defnyddio addurniadau a brynwyd ar gyfer Gŵyl Coeden Nadolig yn Eglwys Llanddarog ym mlwyddyn ariannol 2016/17 fel sail arddangosfa'r Cyngor. Dylid nodi bod y Cyngor wedi penderfynu yng nghofnod 256/2018-19 bod yr addurniadau i gael eu dehongli fel ased ansefydlog ac nad oeddent i'w rhoi ar y gofrestr asedau. Bydd y Clerc yn darparu'r addurniadau i'r Cyng M Rees. /

The Council has been invited to provide a display. Resolved to utilise decorations purchased for the Christmas Tree festival at Llanddarog Church in the 2016/17 financial year as the basis of the Council's display. It should be noted that the Council resolved in minute 256/2018-19 that the decorations were to be interpreted as a non-fixed asset and were not to be placed onto the asset register. The Clerk will provide the decorations to Cllr M Rees.

171/2019-20 Ystyried materion yn ymwneud ag Eisteddfod yr Urdd 2021 – gan gynnwys swm rhodd. /
Consideration of matters relating to the 2021 Urdd Eisteddfod – including contribution sum.

(a) Swm cyfraniad y Cyngor

Mae'r Cyngor wedi cytuno i gyfrannu dros 2 flynedd, ond nid yw'r swm wedi'i benderfynu eto. Penderfynwyd gohirio ystyried swm y cyfraniad nes y derbynnir gwybodaeth am yr hyn y mae Cynghorau eraill yn ei ddarparu.

(b) Cynnig cyngerdd codi arian

Dyweddodd y Cyng S Herridge fod ei merch wedi cynnig cynnal cyngerdd ym mis Gorffennaf / Awst 2020 i gynorthwyo gyda chodi arian ar gyfer cyfraniad y Cyngor Cymuned i'r Eisteddfod. Mynegwyd pryderon mewn perthynas â materion logistaidd. Roedd y pryderon yn cynnwys trin arian parod / arian tocynnau a chyfrifyddu / angen am gyfrif banc ar wahân. Gwnaethpwyd sylwadau yn nodi efallai y byddai rhoi'r elw o'r cyngerdd i'r pwyllgor codi arian lleol yn fwy priodol yn hyn o beth. Penderfynwyd diolch i'r Cyng Herridge a'i merch am eu cynnig caredig ac i gefnogi'r syniad o gyngerdd mewn egwyddor. Penderfynwyd ymhellach nad yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn cytuno i drefnu'r cyngerdd a derbyn unrhyw elw o unrhyw gyngerdd nes bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i faterion logistaidd - gan gynnwys y potensial i'r elw fynd i'r pwyllgor codi arian lleol a nid y Cyngor Cymuned. /

(a) *Council contribution sum*

The Council has agreed to contribute over 2 years, however the sum has yet to be decided. Resolved that consideration of the contribution sum be deferred until information is received on what other Councils are providing.

(b) *Fundraising concert offer*

Cllr S Herridge advised that her daughter has offered to put on a concert in July / August 2020 to assist with raising funds for the community council's contribution to the Eisteddfod. Concerns were made with regards to logistical matters. These concerns included handling of ticket money / cash and accounting / need for a separate bank account. Representations were made stating that perhaps giving the proceeds from the concert to the local fundraising committee would be more appropriate in this regard. Resolved to thank Cllr Herridge and her daughter for their kind offer and to support the idea of a concert in principle. Further resolved that the Council does not currently agree to organise the concert and take receipt of any proceeds from any concert until further consideration is given to logistical matters – including the potential for the proceeds to go to the local fundraising committee and not the Community Council.

172/2019-20 Cytuno ar gynllun / bolisi iaith Gymraeg diwygiedig i'w arwain at y Comisiynydd Iaith. / Agreement of a revised Welsh language scheme / policy for sending to the Language Commissioner.

Rhodddwyd cynllun drafft i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Aeth yr aelodau trwy bob tudalen a gwneud diwygiadau yn ôl yr angen. Dylid nodi bod y Cyngor wedi cytuno pe bai swydd y Clerc yn dod yn wag yna byddai sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn hanfodol wrth hysbysebu'r swydd. Penderfynwyd anfon cynllun arfaethedig y Cyngor (fel a gytunwyd yn y cyfarfod yma) at Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg i gael sylwadau arno. Yna bydd yn cael ei ddwyn yn ôl gerbron y Cyngor i'w fabwysiadu maes o law. /

Members were provided with a draft scheme in advance of the meeting. Members went through each page and made amendments as necessary. It should be noted that the Council agreed that in the event that the Clerk's position became vacant then Welsh language skills would be deemed essential when advertising the post. It was resolved to send the Council's proposed scheme (as agreed in this meeting) to the Welsh Language Commissioner for comment. It will then be brought back before Council to be adopted in due course.

173/2019-20 Ystyried ymgynghoriadau. / Consideration of consultations.

Darparwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriadau canlynol i'r Aelodau o flaen llaw'r cyfarfod.

(a) Cyngor Sir Caerfyrddin.

- (1) Camerâu wedi'u gwisgo ar y corf;
- (2) Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

(b) Llywodraeth Cymru.

- (1) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Penderfynwyd nodi yr ymgynghoriadau yma. /

Information on the following consultations was provided to Members in advance of the meeting.

(a) Carmarthenshire County Council.

- (1) Body Worn Cameras;
- (2) Anti Social Behaviour.

(b) Welsh Government.

- (1) National Development Framework.

It was resolved to note these consultations.

174/2019-20 Hysbysfyrddau. / Notice boards.

Adroddwyd bod problemau gyda chynhwysedd, defnydd a chyflwr hysbysfyrddau'r Cyngor Cymuned yn Llanddarog (ger y White Hart) ac yn sgwâr Porthyrhyd.

Dyweddod yr Aelodau fod angen byrddau newydd, a byddai'n ddelfrydol pe bai modd cloi rhan o'r byrddau newydd hyn at ddefnydd y Cyngor Cymuned yn unig (ar gyfer hysbysiadau statudol ac ati), gyda'r gweddill yn cael ei adael heb ei gloi at ddefnydd y gymuned ehangach. Cadarnhaodd yr Aelodau nad oes problem yn Mynyddcerrig ar hyn o bryd. Penderfynwyd rhoi symiau yn y gyllideb am fyrddau newydd i gymryd lle hysbysfwrdd Llanddarog yn 2020-21 a hysbysfwrdd Porthyrhyd yn 2021-22. /

It was reported that there are issues with the capacity, usage and condition of the Community Council's notice boards in Llanddarog (adjacent the White Hart) and in Porthyrhyd square. Members stated that there is a need for new boards, and it would be ideal if part of these new boards could be locked for Community Council use only (for statutory notices etc), with the remainder left unlocked for use by the wider community. Members confirmed that there is no issue in Mynyddcerrig at present. Resolved to place sums in the budget to replace the Llanddarog notice board in 2020-21 and the Porthyrhyd notice board in 2021-22.

175/2019-20 Reoliadau hygyrchedd gwefan. / Website accessibility regulations.

Darparodd y Cyng M Rees adroddiad manwl ar lafar ac ategwyd yn briodol at hwn gan adroddiadau ysgrifenedig a ddarparwyd i'r Aelodau o flaen llaw'r cyfarfod. Roedd yr adroddiadau ysgrifenedig hyn yn cynnwys dogfen frifio, archwiliad hygyrchedd gwefan y Cyngor a datganiad hygyrchedd drafft. Cadarnhaodd y Cyng M Rees fod y Clerc a hi wedi mynychu hyfforddiant ar-lein trwy Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (Society of Local Council Clerks) ar y mater hwn. Bydd y Cyngor yn targedu Medi 2020 fel ei ddyddiad cydymffurfio oherwydd roedd gan y Cyngor wefan cyn mis Medi 2018. Esboniodd y Cyng M Rees ei bod yn y broses o wneud newidiadau i wefan y Cyngor. Dywedodd y Cyng M Rees fod gan y Cyngor broblem hygyrchedd oherwydd ei fod ar hyn o bryd yn cynhyrchu ei gofnodion gyda'r testun Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd. Er mwyn cynorthwyo meddalwedd darllen sgrin, roedd y Cyng M Rees yn argymhell y dylid gwahanu'r testun Cymraeg a Saesneg. Penderfynwyd diolch i'r Cyng M Rees am ei gwaith. Penderfynwyd ymhellach y dylid dod â'r datganiad hygyrchedd terfynol a'r archwiliad hygyrchedd terfynol gerbron y Cyngor yn y flwyddyn newydd. Penderfynwyd ymhellach i wahanu'r testun Cymraeg a Saesneg ar y cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol ym mis Mai 2020 ymlaen. /

Cllr M Rees provided a detailed verbal report which was suitably supplemented by written reports that had been provided to the Members in advance of the meeting. These written reports consisted of a briefing document, an accessibility audit of the Council's website and a draft accessibility statement. Cllr M Rees confirmed that the Clerk and herself had attended online training through the Society of Local Council Clerks on this matter. The Council will be targeting September 2020 as its compliance date as it had a website in place before September 2018. Cllr M Rees explained that she is in the process of making amendments to the Council's website. Cllr M Rees stated that the Council has an accessibility problem because it currently produces its minutes with the Welsh and English text together. In order to assist screen reading software, Cllr M Rees was recommending that the Welsh and English text should be separated. Resolved to thank Cllr M Rees for her work. Further resolved that a final accessibility statement and final accessibility audit be brought before Council in the new year. Further resolved to separate the Welsh and English text on the minutes from the AGM of May 2020 onwards.

176/2019-20 Fforwm er mwyn i Aelodau i godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd. /

Forum in order for Members to raise reports / questions through the Chairman.

(a) Rhoddodd y Cyng M Rees adroddiad ar lafar ar gyfarfod diweddar Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru. Dywedodd hefyd ei bod yn debygol y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Llanddarog. Penderfynwyd diolch i'r Cyng. Rees a nodi'r adroddiad. /

Cllr M Rees provided a verbal report on the recent One Voice Wales Area Committee meeting. She also advised that the next meeting is likely to be held in Llanddarog. Resolved to thank Cllr Rees and note the report.

(b) Fe wnaeth Cyng M Rees adrodd bod coed a blannwyd cyn mis Mawrth 2016 gan y Cyngor Cymuned ar ymyl y briffordd rhwng Llanddarog a Porthyrhyd yn destun i 'ash-dieback'. Mae Lampeter Tree Services wedi cynnig torri lawr y coed yn rhad ac am ddim. Roedd y Cyngor yn ddiolchgar iawn am hyn ac fe fydd Cyng M Rees yn diolch i'r Cwmni ar ran y Cyngor. Penderfynwyd hysbysu'r Cyngor Sir o'r bwriad i gael gwared y coed. Penderfynwyd ymhellach i ofyn am gopi o fanylion yswiriant Lampeter Tree Services. Penderfynwyd ymhellach i restru'r ystyriaeth o ailosod coed yn lle y rhai sy'n cael ei torri i lawn ar agenda cyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd 2019. /

Cllr M Rees reported that trees planted before March 2016 by the Community Council on the highway verge between Llanddarog and Porthyrhyd are subject to Ash dieback. Lampeter Tree Services have offered to cut down the trees free of charge. The Council was very grateful for this and Cllr M Rees will thank the company on the Council's behalf. Resolved to notify the County Council of the intention to remove the trees. Further resolved to seek a copy of the insurance cover of Lampeter Tree Services. Further resolved to list consideration of replanting trees in the place of those being cut down on the agenda of the November 2019 meeting of the Council.

(c) Dywedodd y Cyng M Rees y bydd Gwasanaeth Sul y Cofio yn cael ei gynnal yn Eglwys Llanddarog am 9.30am (10/11/19). Penderfynwyd diolch i'r Cyng. Rees a nodi'r adroddiad. /

Cllr M Rees advised that a Remembrance Sunday Service will be held in Llanddarog Church at 9.30am (10/11/19). Resolved to thank Cllr Rees and note the report.

(d) Dywedodd y Cyng M Rees ei bod yn ceisio cael dyfynbrisiau ar gyfer cynhyrchu logo'r Cyngor. Penderfynwyd diolch i'r Cyng. Rees a nodi'r adroddiad. /

Cllr M Rees advised that she is seeking quotes for the production of the Council's logo. Resolved to thank Cllr Rees and note the report.

(e) Dywedwyd bod angen i'r Cyngor Cymuned gwneud defnydd buddiol o'r lloches segur yn Llanddarog (ger y Butchers). Penderfynwyd rhestru'r mater hwn ar agenda cyfarfod Cyngor yn y dyfodol. /

It was stated that the Community Council needs to make beneficial use of the disused shelter in Llanddarog (adjacent to the Butchers). Resolved to list this matter on the agenda of a future Council meeting.

177/2019-20 'Mewn-camera. / In-camera' – 10.09pm.

Fe wnaeth y rhai nad oeddynt yn Aelodau'r Cyngor Cymuned, neu'r Clerc, adael y cyfarfod - heb ddychwelyd. Mae'r gwahardd oherwydd materion personél /staff yn cael ei thrafod. /

Those who were not Community Council Members, or the Clerk, departed the meeting - not to return. The exclusion is due to personnel / staffing matters being discussed.

178/2019-20 Materion Cyflog a Iwfansau Cyfnod 7 2019-20 /
Salary and allowances matters Period 7 2019-20

Fe wnaeth bob Aelod derbyn copi o'r adroddiad o flaen llaw. Fe benderfynwyd derbyn yr adroddiad a chadarnhau talu'r symiau fel y cyflwynwyd. /

Each Member had been provided with a written report in advance of the meeting. It was resolved to accept the report and ratify the payment of the sums as presented.

179/2019-20 Adolygiad parhaol o sefyllfa ymrestru awtomatig /
Continued review of auto enrolment position

Fe wnaeth bob Aelod dderbyn adroddiad ysgrifenedig o flaen llaw'r cyfarfod. Fe wnaeth yr adroddiad amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran cymhwysedd y Clerc ar gyfer ymrestru awtomatig. Nid yw'r Clerc wedi gofyn i ymuno gyda chynllun. Penderfynwyd nodi'r adolygiad fel y ganlyn. /

Each Member had been provided with a written report in advance of the meeting. The report outlined the present position in relation to the Clerk's eligibility for auto enrolment. The Clerk has not asked to join a scheme. Resolved to note the review accordingly.

180/2019-20 Daeth y cyfarfod i ben am 10.10pm /
The meeting finished at 10.10pm

CADEIRYDD / CHAIRMAN

DYDDIAD / DATE